

Aseiad Risg Unigol Covid19

Gweithwyr sy'n dychwelyd i'r gweithle

Chwefror 2021

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Cynnwys

Tudalen

1. Cyflwyniad	1
2. Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon	1
3. Risg Iechyd Unigolion o ran Covid-19	2
4. Nodweddion Personol a all effeithio ar ganlyniad COVID-19	2
5. Canlyniadau a chymau gweithredu	2
6. Atodiad A – Asesiad Risg Unigol	4

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r broses asesu risg mewn perthynas â'r risg benodol o COVID-19 i unigolion sy'n dychwelyd i'r gweithle, yn enwedig y rheiny sydd wedi bod yn gwarchod.

Er mai'r flaenoriaeth yw asesu risg gweithwyr sy'n dychwelyd i'r gweithle ar ôl gwarchod, mae'r asesiad risg yn berthnasol i'r holl staff, gan gynnwys y rheiny sy'n dychwelyd i ddyletswyddau arferol ar ôl cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19, y rheiny sy'n dychwelyd i'r gweithle ar ôl gweithio gartref neu unrhyw un sydd â phryder ynglŷn â pha mor agored ydynt i COVID-19.

Diweddarwyd canllawiau Llywodraeth Cymru ar yr asesiad risg i unigolion ar 12 Awst 2020 ac mae asesiad risg covid yr awdurdod wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Felly, cyngorir pob gweithiwr sy'n perthyn i'r [categori agored iawn i niwed](#) a dderbyniodd lythyr gwarchod gan Lywodraeth Cymru i ailadrodd yr asesiad risg gan ddefnyddio'r pecyn cymorth sydd wedi'i ddiweddarau yn Atodiad A.

Ar gyfer gweithwyr sy'n bryderus am dychwelyd i'r gweithle yn ogystal â chwblhau'r asesiad risg gyda'u rheolwr, gallant wneud atgyfeiriad eu hunain i'r [Gwasanaeth Cymorth a Chyngor Llesiant](#).

Mae'r Awdurdod wedi cynnal asesiad risg sefydliadol ynghylch Covid-19, mae ganddo asesiadau risg sy'n benodol i'r gwasanaeth ac mae arferion gwaith diogel ar waith wedi'u rheoli drwy broses gadarn ar gyfer ailosod y gwasanaethau.

Dylai'r gweithiwr sy'n dychwelyd i'r gweithle gwblhau'r asesiad risg unigol gyda'i reolwr gan ddefnyddio asesiad risg unigol COVID-19. Bydd hyn yn helpu gweithwyr a rheolwyr i asesu'r risgiau a chytuno ar drefniadau gweithio ar ôl dychwelyd i'r gwaith.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Ar ôl darllen y ddogfen hon dylai rheolwyr llinell weithredu mesurau i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 gymaint ag y bo modd drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod yr holl weithwyr sy'n dychwelyd i'r gweithle yn cwblhau Asesiad Risg Unigol COVID-19 (**Atodiad A**) i nodi pa mor agored i niwed yw'r gweithiwr.
- Esbonio'r systemau gweithio diogel ac asesiadau risg yn y gweithle sy'n benodol i'w gweithle.
- Cael sgwrs adeiladol am sut y gellir galluogi proses ddiogel o dychwelyd i'r gwaith.
- Dod i gytundeb ar ddyletswyddau gwaith ar ôl dychwelyd i'r gweithle.

Risgiau Iechyd COVID-19 i unigolion

Mae risg yn gyfuniad o ganlyniadau posibl perygl penodol a'r tebygolrwydd y bydd y canlyniad hwn yn digwydd. Wrth ystyried y risg i staff o ran COVID 19, ceir dwy ystyriaeth gyffredinol:

- **Y risg o drosglwyddo COVID-19 yn y gweithle.** Fel awdurdod, mae'r holl fesurau lliniaru priodol wedi cael eu rhoi ar waith i ddiogelu ein gweithwyr ac mae gan bob un ohonom ddyletswydd i ddilyn y mesurau hyn. Bydd hyn yn dibynnu ar ffactorau sy'n cynnwys pa mor gyffredin y mae COVID-19 yn y gymuned, a natur yr amgylchedd gwaith, gan ystyried mesurau lliniaru sydd ar waith (e.e. Defnyddio cyfarpar diogelu personol, cadw pellter corfforol, rheoli heintiau).
- **Yr effaith bosibl y gallai COVID-19 ei hachosi i unigolyn (bod yn agored i niwed yn glinigol).**
Bydd hyn yn dibynnu ar nodweddion unigol fel oedran, rhyw, ethnigrwydd a chyflyrau iechyd sylfaenol.

Mae'r cyfuniad o'r ddwy ystyriaeth hyn yn rhoi syniad da o'r risg i iechyd yr unigolyn yn gyffredinol.

Mae asesiad risg unigol COVID-19 (gweler **Atodiad A**) wedi'i lunio i helpu rheolwyr i gynnal asesiadau risg unigol gyda gweithwyr.

Ar ôl hyn dylid cynnal trafodaeth gefnogol ac adeiladol rhwng rheolwyr a gweithwyr, gyda'r nod o gytuno ar gamau gweithredu.

Nodweddion Personol a all effeithio ar ganlyniad COVID-19 **2**

Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn dangos bod oedran, rhyw, ethnigrwydd a mynegai màs y corff (BMI), yn ogystal â chyflyrau iechyd sylfaenol, yn cyfrannu at risg unigolyn o ddatblygu salwch difrifol os ydynt yn dal COVID-19. Disgrifir hyn fel pa mor 'agored i niwed' ydynt.

Mae'r offeryn yn rhoi asesiad cyffredinol o ba mor agored i niwed y mae unigolyn i COVID-19 a gall yr holl staff ei ddefnyddio. Dylai rheolwyr gefnogi staff yn gyfrinachol i ddefnyddio'r offeryn er mwyn nodi pa mor agored i niwed yw'r gweithiwr (lefel isel, cymedrol, uchel neu uchel iawn). Os nad yw'r gweithiwr yn teimlo'n gyfforddus yn datgelu nodweddion personol gyda'i reolwr, gellir parhau i gynnal sgwrs adeiladol ar ôl asesu ei lefel ei hun o ran bod yn agored i niwed. Mae'r offeryn hefyd yn rhoi gwybodaeth benodol ar gyfer gweithwyr beichiog.

Canlyniadau a Chamau Gweithredu

Rhan bwysicaf y broses yw'r sgwrs a gynhelir rhwng y rheolwr a'r gweithiwr. Dylai'r ddeialog gefnogol ac adeiladol hon ystyried y systemau gweithio diogel ac asesiadau risg sy'n benodol i'r gwasanaeth sydd wedi'u rhoi ar waith a chytuno ar gamau gweithredu penodol ynghylch eu ddyletswyddau gwaith.

I lawer o weithwyr, ni fydd angen newid eu trefniadau gweithio presennol gan fod rheolaethau priodol eisoes ar waith sy'n gymesur â pha mor agored i niwed yw'r gweithiwr. Fodd bynnag, i rai gall dod i ben â threfniadau gwarchod, neu drefniadau gweithio gartref, i ddychwelyd i leoliad galwedigaethol, fod yn newid sylweddol. Bydd gofyn i reolwyr a gweithwyr drafod ymhellach i gytuno sut y byddant yn dychwelyd i'r gwaith a pha fesurau cymorth sydd ar gael. Os na all y gweithiwr a'i reolwr ddod i gytundeb ar y dyletswyddau gweithio, neu os oes ansicrwydd ynghylch effaith cyflwr iechyd yr aelod o staff, dylech ofyn am gyngor pellach gan y tîm adnoddau dynol a/neu'r tîm iechyd galwedigaethol, fel sy'n briodol.

I'r rheiny yn y grŵp sy'n agored iawn i niwed, neu os oes problem iechyd ac nad oes modd dod i gytundeb rhwng y rheolwr a'r aelod o staff, dylai'r rheolwr wneud [atgyfeiriad i'r tîm Iechyd Galwedigaethol](#). Drwy gynnal trafodaeth fanylach ar y risgiau, dylai fod yn bosibl i aelodau staff gytuno ar gamau gweithredu gyda'u rheolwr.

Mae dyletswydd ar yr awdurdod, rheolwyr, y tîm adnoddau dynol, gweithwyr proffesiynol iechyd galwedigaethol a gweithwyr i ddeall sut i wneud y gweithle mor ddiogel â phosibl, eu rôl yn y broses honno, a'r angen i gymryd rhan i weithio gyda'i gilydd wrth wneud y penderfyniadau hynny.

Os na fydd modd dod i gytundeb er gwaethaf mewnbwn ychwanegol, dylid datrys hyn gan ddefnyddio gweithdrefnau'r awdurdod y cytunwyd arnynt ar gyfer datrys anghydfodau.

Atodiad A

Pecyn Asesu Risg Unigol Covid-19

Sut i ddefnyddio'r offeryn asesu risg

1. Dechreuwch drwy nodi enw a rôl yr aelod o staff
2. Ewch drwy'r 'ffactorau risg COVID' i nodi pa ffactorau risg sydd gan yr aelod o staff
3. Mae rhif wedi'i neilltuo ar gyfer pob un o'r ffactorau hyn; cyfrifwch gyfanswm y nifer yn seiliedig ar y ffactorau hyn;


Ar ôl cyfrifo cyfanswm, dylid adolygu'r tabl ar dudalen 6.

Gan ddefnyddio'r asesiad hwn o ran bod yn agored i niwed, dylai rheolwyr gael sgwrs adeiladol gyda'r aelod o staff ynglŷn â sut y gellir ei alluogi i weithio'n ddiogel a gellir cofnodi hyn yn y lle a ddarperir. Lle na ellir dod i gytundeb, efallai y bydd angen mewnbwn ychwanegol.

Enw:			
Rôl y Swydd:			
Ffactor risg COVID			
<u>Categori agored iawn i niwed</u>	Mae agored iawn i niwed yn cyfeirio at bobl sydd ag un o restr benodol iawn o gyflyrau iechyd difrifol sydd eisoes yn bodoli ac yn y tymor hir ac a dderbyniodd lythyr personol gan Lywodraeth Cymru yn cynghori i darian.	7	
Rhyw:	Gwryw (ymddengys bod Covid-19 yn cael mwy o effaith ar ddynion na menywod)	1	
Ethnigrwydd:	Ymddengys bod COVID-19 yn cael mwy o effaith ar bobl o rai gefndiroedd ethnig Ydych chi'n uniaethu fel un o'r grwpiau BAME neu grwpiau hil gymysg fel y nodir yn y ddolen hon BAME neu hil gymysg	1	
Mynegai Mâs y Corff (BMI):	Cyfrifiannell BMI . Bydd y ddolen hon yn eich helpu i ganfod eich BMI os yw eich BMI dros 30 NEU Os yw cylchedd eich canol yn un o'r canlynol: Merch De Asiaidd dros 33 modfedd (84cm);	1	

	BAME neu fenyw wyn arall dros 34.5 modfedd (88cm): Gwryw De Asiaidd dros 35 modfedd (89cm); BAME neu Wryw gwyn arall dros 40 modfedd (102cm)		
Oed Ymddengys bod COVID-19 yn cael mwy o effaith ar bobl hŷn.	Os ydych yn 50-59 oed	1	
	Os ydych yn 60-69 oed	2	
	Os ydych yn 70-79 oed	4	
Cyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes	Clefyd cardiofasgwlaidd Ydych chi'n derbyn triniaeth ar gyfer Gorbwysedd (pwysedd gwaed uchel), Ffibriliad Atriaidd (Curiad afreolaidd y galon), Methiant y Galon, MI Blaenorol (trawiad ar y galon), strôc, neu Drawiad Transient Ischemic (mân strôc)	1	
	Diabetes Math 1 neu 2	1	
	Clefyd Cronig yr Ysgyfaint (gan gynnwys asthma, Afiechyd Llesteiriol Cronig ar yr Ysgyfaint (COPD), clefyd interstitaidd yr ysgyfaint	1	
	Clefyd cronig yr arennau (unrhyw gam 1-5)	1	
	Clefyd y crymangelloedd, Thalasia neu hemoglobinopathi eraill		
Hanes teulu Ymddengys bod Covid-19 yn dueddol o effeithio rhai pobl mewn teuluoedd yn enwedig gefeilliaid.	A oes aelod o'ch teulu agos (rhiant, brawd neu chwaer, plentyn) wedi bod yn yr Uned Gofal Dwys neu wedi marw oherwydd covid-19)	1	
Cyfanswm Sgôr			

Sylwadau Ychwanegol:



Sgôr y Risg	Eich risg	Pethau i'w hystyried wrth baratoi i ddychwelyd i'r gwaith
Uchel iawn 7 neu ragor	Risg uchel iawn o COVID-19 Rhaid i chi gymryd gofal mawr wrth adael eich cartref, gan wneud dewisiadau gofalus ynglŷn â'r hyn rydych yn ei wneud.	Yn ddelfrydol, dylech weithio gartref a pheidio â mynd i weithle. Os byddwch yn mynd i'r gwaith, dylai eich cyflogwr geisio sicrhau bod y risg o fod yn y gwaith heb fod yn fwy na'r risg yn eich cartref eich hun. Cadwch bellter cymdeithasol. Sicrhewch y gallwch gynnal mesurau hylendid a rheoli heintiau da. Efallai y bydd angen atgyfeiriad i'r tîm lechyd Galwedigaethol.
Uchel 4-6	Risg uchel o COVID-19.	Gallwch fynd i'r gwaith. Dylech gadw pellter cymdeithasol. Os nad oes modd i chi gadw pellter cymdeithasol, dylech gadw'r risg yn eich gweithle mor isel ag y gallwch drwy sicrhau eich bod yn dilyn y systemau gweithio diogel yn eich gweithle. Efallai y bydd gwaith clinigol, gwaith gofal a gweithio'n agos gydag eraill (fel addysgu, rhannu cerbyd, defnyddio trafndiaeth gyhoeddus) yn bosibl, ond rhaid i chi ddilyn y systemau gweithio diogel yn eich gweithle. Efallai y bydd angen atgyfeiriad i'r tîm lechyd Galwedigaethol.
Isel 0-3	Risg isel iawn o COVID-19	Gallwch fynd i'r gwaith. Dylech gadw pellter cymdeithasol. Os nad oes modd i chi gadw pellter cymdeithasol, dylech gadw'r risg yn eich gweithle mor isel ag y gallwch drwy sicrhau eich bod yn dilyn y systemau gweithio diogel yn eich gweithle.
Beichiogrwydd	Nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd i ddangos eich bod chi na'ch babi mewn mwy o berygl o ran COVID-19, oni bai bod gennych gyflwr iechyd sylfaenol.	Dylech gadw unrhyw risg mor isel ag y gallwch drwy gadw pellter cymdeithasol a golchi'ch dwylo'n rheolaidd. Dylech hefyd gael cyfle i drafod sut yr ydych yn gwneud eich gwaith, a oes modd cwblhau peth o'ch gwaith gartref, neu a allwch newid y math o waith yr ydych yn ei wneud yn y gwaith i gadw risgiau'n isel. Dylech gwblhau asesiad risg beichiogrwydd a thrafod gyda'ch rheolwr er mwyn gallu rhoi'r mesurau lliniaru priodol ar waith.
		Uchel iawn

Grŵp agored i niwed a ddewiswyd ar ôl cynnal trafodaeth â'r gweithiwr		Uchel	
		Isel	
Y camau gweithredu y cytunwyd arnynt, gan gynnwys unrhyw fesurau rheoli sydd eu hangen:			
Enw'r Rheolwr:		Llofnod y Rheolwr:	
Dyddiad yr asesiad:		Llofnod y Gweithiwr:	